

## Hysbysiad casglu i Staff HESA

Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch Cyfyngedig (HESA) yw'r corff sy'n gyfrifol am gasglu a dosbarthu gwybodaeth am addysg uwch yn y DU a dyma'r corff data dynodedig ar gyfer Lloegr (gweler <https://www.hesa.ac.uk/about> am fwy o wybodaeth). Mae HESA yn [Rheolydd](#) ar eich gwybodaeth.

Mae cyfeiriad at "eich darparwr" yn cyfeirio at y darparwr addysg uwch ble rydych chi'n gweithio. Mae'r hysbysiad hwn yn ymwneud â gwybodaeth amdanoch chi a fydd yn cael ei chasglu gan eich darparwr a'i throsglwyddo i HESA ac i sefydliadau eraill fel y disgrifir isod.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2021/22. Mae hefyd yn berthnasol i'r data a gasglwyd mewn blynyddoedd academaidd blaenorol a'u cadw gan HESA. Edrychwch ar *Categoriâu o wybodaeth a gyflwynir i HESA, gan gynnwys Categoriâu Arbennig o ddata*, isod, i gael mwy o wybodaeth am y categorïau o ddata fydd yn cael eu casglu yn 2021/22 ac sydd wedi'u casglu mewn blynyddoedd blaenorol.

### Adolygu a Diweddarau'r Hysbysiad hwn

Mae'r hysbysiad hwn yn nodi gwybodaeth am HESA a Rheolwyr eraill eich data, sut a pham maent yn prosesu'ch data, [y seiliau cyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn](#), [a'ch hawliau](#) o dan deddfwriaeth diogelu data. Caiff yr hysbysiad hwn ei adolygu'n rheolaidd a chaiff ei ddiweddarau, er enghraifft, pan fydd sefydliad ynnewid ei enw, neu i egluro sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Gellir ei ddiweddarau ar unrhyw adeg abydd y fersiwn diweddaraf bob amser ar gael i chi yn [www.hesa.ac.uk/fpn](http://www.hesa.ac.uk/fpn).

### Cyflwyno eich gwybodaeth i HESA

Bydd data amdanoch chi'n cael eu cyflwyno i HESA at y dibenion a nodir isod. Nid yw'r data'n cynnwys eich enw (ac eithrio yn achos cyfyngedig pwrpas 6, gweler isod) ac nid ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer eu defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch. Defnyddir yr holl wybodaeth gan gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Bob blwyddyn bydd eich darparwr yn anfon rhywfaint o'r wybodaeth mae'n ei chadw amdanoch chi i HESA ("eich gwybodaeth HESA"). Mae HESA yn ffynhonnell ddata swyddogol am addysg uwch yn y DU. Mae HESA yn elusen gofrestrdedig ac yn gweithredu ar sail ddielw.

**Nid yw eich gwybodaeth HESA yn cynnwys eich enw na'ch manylion cyswllt**, ond gall gynnwys eich rhif adnabodfel Ymchwil ydd a Chyfrannwr Agored ([ORCID.org](https://orcid.org)) os oes gennych un.

Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion gan HESA yn ogystal â thrydydd partiön fel y disgrifir isod. Efallai y bydd HESA yn codi tâl ar sefydliadau eraill y mae'n darparu gwasanaethau a data iddynt. Gallai'r defnydd o'ch gwybodaeth HESA gynnwys cysylltu rhannau ohoni â gwybodaeth arall, fel y disgrifir isod. Mae rhywfaint o'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i HESA yn cael ei chadw am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil ystadegol. Ni fydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd amdanoch chi. Bydd i ba raddau y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio at bwrpasau 3 a 4 yn amrywio.

Mae HESA yn prosesu gwybodaeth am wladolion y DU a gwladolion eraill, gan gynnwys gwladolion yr UE. Yn unol â hynny, rhaid i bob defnydd a wneir o wybodaeth HESA gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (gan gynnwys fersiynau'r DU a'r UE) aDeddf Diogelu Data 2018.

### Y categorïau o wybodaeth sy'n cael eu cyflwyno i HESA, gan gynnwys Categoriâu Arbennig o ddata

Mae HESA yn casglu data am nodweddion personol staff a llywodraethwyr darparwyr addysg uwch a gwybodaeth am eu swyddi a'u contractau. Gallai hyn gynnwys manylion sensitif am fywydau personol aelodau o staff a llywodraethwyr er mwyn eu defnyddio i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r data mae eich darparwr yn eu cyflwyno i HESA yn cynnwys manylion am eich contract cyflogaeth, y gwaith rydych chi'n ei wneud a'ch cyflog. Mae hefyd yn cynnwys [data personol](#), chi fel eich dyddiad geni a'ch cenedligrwydd.

Mae gwybodaeth am eich iechyd, statws anabledd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd neu grefydd yn cael ei dosbarthu fel *'Categoriâu Arbennig o Ddata'* o dan y GDPR. Os yw eich Darparwr yn datgelu'r wybodaeth hon i HESA bydd yn cael ei chynnwys yn eich gwybodaeth HESA. Mae'r wybodaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer monitro cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cydraddoldeb

2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at ddibenion ymchwil arall sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) y GDPR. Hefyd caiff yr wybodaeth hon ei phrosesu ar gyfer ystadegau ac ymchwil ystadegol lle mae hyn ynangenrheidiol ac er budd y cyhoedd.

Bydd rhestr lawn o'r eitemau data a allai gael eu cynnwys yn eich gwybodaeth HESA ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 ar gael o fis Hydref 2021 ymlaen yma: <https://www.hesa.ac.uk/collection/c21025/> Nodwch nad yw'r holl eitemau data'n cael eu casglu ar gyfer pob aelod o staff – bydd yr union set o newidynnau sy'n berthnasol i chi'n dibynnu ar eich rôl a'ch contract.

Os oeddech chi'n aelod o staff mewn blwyddyn academaidd flaenorol, gellir dod o hyd i restr lawn o eitemau data y gellir eu cynnwys yn eich gwybodaeth HESA isod. Sylwer bod blynyddoedd academaidd lluosog yn debygol o fod yn berthnasol i'ch gwybodaeth HESA, gan ddibynnu ar hyd y gyflogaeth.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i weld pa gofnodion y gallai eich gwybodaeth HESA fod wedi'i chynnwys ynddynt, cysylltwch â [data.protection@hesa.ac.uk](mailto:data.protection@hesa.ac.uk) i gael arweiniad.

Cofnod Staff	Cofnod Cyllid (edrychwch ar Bwrpas 6)
• <a href="#">Staff 20/21</a>	• <a href="#">Cyllid 19/20</a>
• <a href="#">Staff 19/20</a>	• <a href="#">Cyllid 18/19</a>
• <a href="#">Staff 18/19</a>	• <a href="#">Cyllid 17/18</a>
• <a href="#">Staff 17/18</a>	• <a href="#">Cyllid 16/17</a>
• <a href="#">Staff 16/17</a>	• <a href="#">Cyllid 15/16</a>
• <a href="#">Staff 15/16</a>	• <a href="#">Cyllid 14/15</a>
• <a href="#">Staff 14/15</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 13/14</a>
• <a href="#">Staff 13/14</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 12/13</a>
• <a href="#">Staff 12/13</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 11/12</a>
• <a href="#">Staff 11/12</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 10/11</a>
• <a href="#">Staff 10/11</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 09/10</a>
• <a href="#">Staff 09/10</a>	• <a href="#">Cyllid a Rhyngweithio Busnes a Chymuned AU 08/09</a>
• <a href="#">Staff 08/09</a>	• <a href="#">Cyllid 07/08</a>
• <a href="#">Staff 07/08</a>	• <a href="#">Cyllid 06/07</a>
• <a href="#">Staff 06/07</a>	• <a href="#">Cyllid 05/06</a>
• <a href="#">Staff 05/06</a>	• <a href="#">Cyllid 04/05</a>
• <a href="#">Staff 04/05</a>	• <a href="#">Cyllid 03/04</a>
• <a href="#">Staff 03/04</a>	• <a href="#">Cyllid 02/03</a>
• <a href="#">Staff 02/03</a>	• <a href="#">Cyllid 01/02</a>
• <a href="#">Staff 01/02</a>	• <a href="#">Cyllid 00/01</a>
• <a href="#">Staff 00/01</a>	• <a href="#">Cyllid 99/00</a>
• <a href="#">Staff 99/00</a>	• <a href="#">Cyllid 98/99</a>
• <a href="#">Staff 98/99</a>	• <a href="#">Cyllid 97/98</a>
• <a href="#">Staff 97/98</a>	• <a href="#">Cyllid 96/97</a>
• <a href="#">Staff 96/97</a>	• <a href="#">Cyllid 95/96</a>
• <a href="#">Staff 95/96</a>	• <a href="#">Cyllid 94/95</a>
• <a href="#">Staff 94/95</a>	

### Pwrpas 1 – Data lefel unigol i'w defnyddio ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan gyrff cyllido a rheoleiddio AU

Mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio gan gyrff cyllido a rheoleiddio AU (sy'n gofyn i HESA ei chasglu) ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus gan gynnwys at ddibenion cyllid, rheoleiddio, a llunio polisïau. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Mae HESA yn rhannu eich gwybodaeth HESA gyda chyrrff cyllido a rheoleiddio AU sy'n gofyn i HESA ei chasglu ac y mae ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus. Gwneir y rhannu data hwn er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio i HESA a'r chyrrff cyllido a rheoleiddio. Mae HESA wedi cael ei benodi fel y corff data dynodedig ar gyfer Lloegr o dan [Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017](#). Dyma'r chyrrff cyllido a rheoleiddio AU:

- Lloegr - [Office for Students](#) (sy'n ystyried beth fyddai'n ddefnyddiol ei gasglu ar gyfer rhannu gydag UK Research and Innovation a'r Ysgrifennydd Gwladol)
- Cymru – [Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru](#)

- Yr Alban – [Cyngor Cyllido'r Alban](#)
- Gogledd Iwerddon – [Adran yr Economi](#)

Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu gyda'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg am bobl eraill sy'n gweithio gyda darparwyr addysg uwch yn y DU. Mae'r sefydliadau hyn yn Rheolyddion ar eich gwybodaeth HESA hefyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ei defnyddio, a gall hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu'r wybodaeth â thrydydd partion, fel cyrff eraill y llywodraeth neu gyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill o'r math sydd wedi'i restru mewn manau eraill yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd a wneir o'ch gwybodaeth HESA yn cael ei wneud yn unol â'r dibenion a nodir yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd wedi'i gynnwys yn y trefniadau rhannu data â HESA.

Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'r data er mwyn eich adnabod chi fel unigolyn nac i wneud penderfyniadau amdanoch chi. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

### **Staff anacademaidd yn narparwyr addysg uwch Lloegr a Gogledd Iwerddon**

Os ydych chi'n aelod anacademaidd o staff gyda darparwr yn Lloegr sy'n cael ei reoleiddio gan yr Office for Students neu gyda darparwr addysg uwch yng Ngogledd Iwerddon, efallai na fydd yr Office for Students nag Adran yr Economi (GI) yn gofyn i'ch gwybodaeth HESA gael ei chyflwyno gan eich darparwr i HESA fel rhan o'r Cofnod Staff HESA ac y caiff ei chyflwyno gan eich darparwr ar sail wirfoddol er mwyn cynorthwyo eich darparwr i fodloni ei rwymedigaethau adrodd yn ôl statudol (e.e. adrodd yn ôl am gydraddoldeb ac amrywiaeth, ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth) ac er budd didwyll arall, fel meincnodi neu adroddiadau mewnlol. Os caiff ei chyflwyno yn wirfoddol, gall yr wybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer pwrpasau 2 i 4 ac 7 hefyd.

[Cliciwch yma am fwy o wybodaeth](#) am y categorïau o staff sydd wedi'u cynnwys yn y Cofnod Staff a'r categorïau a fydd yn cael eu casglu'n wirfoddol.

#### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 1**

Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 1 – mae'r rhain yn cynnwys defnyddio dataperonol gan HESA a'r cyrff cyllido a rheoleiddio AU fel Rheolyddion data:

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 1 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoeddneu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (gweler Erthygl 89 GDPR).

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n berthnasol i'r Rheolydd (gweler Erthygl 6(1)(c) GDPR).

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu gwybodaeth staff anacademaidd at ddibenion budd cyfreithlon fel y ceisir gan yRheolydd neu drydydd parti (gweler Erthygl 6(1)(f) GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) y GDPR yn unol â'r dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yrEconomi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at y dibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd gall prosesu Categorïau Arbennig o ddata fod yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol (gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

## Pwrpas 2 – Data lefel unigol i'w defnyddio ar gyfer swyddogaethau cyhoeddus gan awdurdodau cyhoeddus

Mae HESA yn gweithredu fel canolfan wybodaeth i ddarparu data ac ystadegau am addysg uwch. Mae gan y cyrff a ddisgrifir ym Mhwrpas 1 (uchod) bŵer cyfreithiol neu reoleiddiol i ofyn am wybodaeth gan rai darparwyr addysg uwch, ond mae awdurdodau cyhoeddus eraill yn defnyddio eich gwybodaeth HESA hefyd ar gyfer eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus, gan gynnwys at ddibenion cyllid, rheoleiddio a llunio polisiau.

### Ystadegau a data addysg

Mae HESA hefyd yn gweithredu fel canolfan wybodaeth i ddarparu gwybodaeth am addysg uwch. Yn Lloegr, caiff hyn ei wneud y tu allan i weithgareddau corff data dynodedig HESA. Mae HESA yn rhannu eich gwybodaeth HESA ag awdurdodau cyhoeddus y mae ei hangen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau statudol a/neu gyhoeddus. Mae'r broses hon o rannu data'n cael ei chynnal er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i HESA a'r awdurdodau cyhoeddus. Bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei rhannu â'r sefydliadau hyn fel rhan o set ddata fawr sy'n cynnwys gwybodaeth debyg am bobl eraill sy'n gweithio i ddarparwyr addysg uwch yn y DU.

Mae'r sefydliadau hyn yn Rheolyddion ar eich gwybodaeth HESA hefyd. Mae hyn yn golygu eu bod yn penderfynu drostynt eu hunain sut maent yn ei defnyddio, a gall hyn gynnwys cyhoeddi ystadegau a rhannu'r wybodaeth â thrydydd partion, megis cyrff eraill y llywodraeth neu gyrff cyhoeddus neu sefydliadau eraill o'r math sydd wedi'i restru mewn manau eraill yn yr hysbysiad casglu hwn. Fodd bynnag, bydd pob defnydd a wneir o'ch gwybodaeth HESA yn cael ei wneud yn unol â'r dibenion a nodir yn yr hysbysiad casglu hwn a bydd wedi'i gynnwys yn y trefniadau rhannu data â HESA. Ni fydd y sefydliadau hyn yn defnyddio'r data er mwyn eich adnabod chi fel unigolyn nac i wneud penderfyniadau amdanoch chi. Efallai y bydd y sefydliadau hyn yn cadw gwybodaeth HESA am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil, neu am dymor sefydlog yn dibynnu ar delerau eu cytundebau rhannu data gyda HESA.

Y cyrff cyllido a rheoleiddio AU sy'n derbyn gwybodaeth nad yw'n cael ei chasglu o dan eu pŵer perthnasol, ond sydd ei hangen ar gyfer eu swyddogaethau, yw:

- [Office for Students](#) (er enghraifft, mae gan yr OfS bŵer i gasglu gwybodaeth gan ddarparwyr yn Lloegr, ond mae arnynt angen gwybodaeth hefyd am ddarparwyr mewn rhannau eraill o'r DU ar gyfer eu swyddogaeth gyhoeddus)
- [Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru](#)
- [Cyngor Cyllido'r Alban](#)
- [Adran yr Economi](#)

Adrannau addysg yn Lloegr ac yn y gweinyddiaethau datganoledig:

- [Yr Adran Addysg](#)
- [Llywodraeth Cymru](#)
- [Llywodraeth yr Alban](#)

Cyrff eraill gyda swyddogaethau cyhoeddus yn gysylltiedig ag addysg:

- [Yr Adran ar gyfer Busnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol](#)
- [UK Research and Innovation](#) (UKRI)
- Cyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r sefydliadau sy'n gweithio â hwy e.e. [Health Education England](#)
- [Cyngor yr Ysgolion Meddygol](#)

ac unrhyw gyrff olynol. Mae'n bosib y bydd rhagor o Reolyddion data'n cael eu hychwanegu at y rhestr o bryd i'w gilydd – darllenwch y fersiwn ar-lein o'r hysbysiad hwn yn [www.hesa.ac.uk/fpn](http://www.hesa.ac.uk/fpn).

Hefyd, efallai y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio gan Reolyddion eraill sy'n cynnal tasgau ystadegol ac ymchwil er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol ac nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, megis monitro gwariant cyhoeddus gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Bydd UKRI yn cysylltu gwybodaeth am staff academiaidd â chyflwyniadau'r [Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil](#) er mwyn monitro cyfle cyfartal mewn perthynas â'r ymarfer hwnnw, darparu gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer yr ymarfer hwnnw, a chael sicrwydd o ansawdd y data a gyflwynir i'r ymarfer hwnnw.

## Defnyddiau eraill o ddata

Efallai y caiff eich gwybodaeth HESA ei defnyddio gan rai sefydliadau sydd hefyd yn Rheolyddion sy'n cwblhau tasgau ystadegol ac ymchwil er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol heb fod yn gysylltiedig ag addysg. Gall defnyddiau o'r fath gynnwys y canlynol:

- Llunio ystadegau mewn perthynas â phoblogaeth y DU ac at ddiben ymchwil ystadegol, a wneir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ONS\)](#).
- Llunio ystadegau ac ymchwil ystadegol a wneir gan [Gofnodion Cenedlaethol yr Alban](#) ac [Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon](#).
- Monitro gwariant cyhoeddus gan y [Swyddfa Archwilio Genedlaethol](#).

Mae'n bosib y bydd y rhestr uchod o sefydliadau a fydd efallai'n cael eich gwybodaeth HESA yn newid dros amser. Er enghraifft, mae HESA yn ceisio lleihau'r baich ar ddarparwyr addysg uwch drwy annog sefydliadau eraill sy'n casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg uwch ar hyn o bryd i gasglu a derbyn gwybodaeth drwy HESA. Bydd y rhestr uchod yn cael ei diweddarau ar wefan HESA yn <https://www.hesa.ac.uk/fpn> o bryd i'w gilydd, a bydd angen i chi fonitro'r ddolen hon eich hun os ydych chi eisiau bod yn ymwybodol o'r newidiadau.

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 2

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 2 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at y dibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd gall prosesu Categorïau Arbennig o ddata fod yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol (Gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

### Pwrpas 3 - Cyhoeddiadau HESA

Mae HESA yn cyhoeddi ystadegau am staff sy'n gweithio ym maes addysg uwch.

Rhan o rôl HESA yw cynhyrchu a chyhoeddi gwybodaeth am addysg uwch er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol a Chenedlaethol (<https://uksa.statisticsauthority.gov.uk/about-the-authority/uk-statistical-system/types-of-official-statistics/>) a gwybodaeth am fusnes ar-lein yn ogystal â gwasanaethau ymchwil.

Wrth gynhyrchu'r deunydd hwn i'w gyhoeddi, mae HESA yn defnyddio ei adnodd rheoli datgelu, [Methodoleg Crynhoi Safonol HESA](#), i sicrhau nad oes unrhyw Ddata Personol wedi'u cynnwys ac nad oes modd adnabod unigolion yn y deunydd a gyhoeddir.

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 3

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 3 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata personol at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR).

#### **Pwrpas 4 - Cyfle cyfartal, ymchwil, newyddiaduraeth a phrosesu arall at ddibenion ystadegol ac ymchwil**

Defnyddir gwybodaeth HESA ar gyfer ymchwil i addysg uwch a phoblogaeth y staff. Gall yr ymchwil hwn fod yn academaidd, masnachol, newyddiadurol neu am resymau personol. Mae HESA yn gwahardd datgelu pwy yw aelodau unigol o staff gan y rhai sy'n cynnal yr ymchwil hwn.

Hefyd caiff HESA a Rheolyddion eraill (gweler Pwrpasau 1 a 2) gyflenwi gwybodaeth i drydydd partion os oes budd cyfreithlon o wneud hynny at ddibenion ystadegol ac ymchwil. Mae esiamplau o'r defnydd ar gyfer y pwrpas hwn yn cynnwys y canlynol:

- Darparu gwybodaeth i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr
- Monitro cyfleoedd cyfartal
- Ymchwil - Gall hwn fod yn ymchwil academaidd, ymchwil masnachol neu ymchwil ystadegol arall os oes budd i'r cyhoedd
- Newyddiaduraeth – Os yw'r cyhoeddiad perthnasol o fudd i'r cyhoedd e.e. tablau cynghrair
- Creu a gweithredu adnoddau dadansoddi, er enghraifft, [Heidi Plus](#)

Mae'r defnyddwyr y cyflenwir gwybodaeth iddynt efallai ar gyfer Pwrpas 4 yn cynnwys y canlynol:

- Cyrff y sector addysg uwch, gan gynnwys [Jisc](#)
- Darparwyr addysg uwch
- Ymchwilwyr a myfyrwyr academaidd
- Sefydliadau masnachol
- Undebau
- Sefydliadau anllywodraethol ac elusennau
- Cyrff rheoli lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Newyddiadurwyr

Cyflenwir yr wybodaeth a gyflenwir gan HESA i drydydd partion oddi mewn i Bwrpas 4 o dan gontractau sy'n dweud ei bod yn ofynnol peidio â gallu adnabod unigolion oddi wrth yr wybodaeth a gyflenwir ac mae hyn hefyd yn golygu na allant ei defnyddio i wneud penderfyniadau amdanoch chi.

Mae copi o gytundeb presennol HESA ar gyfer cyflenwi gwybodaeth ar gael yn [www.hesa.ac.uk/services/custom/data/timescales-costs](http://www.hesa.ac.uk/services/custom/data/timescales-costs). Mae pob cytundeb yn nodi'r cyfnod ar gyfer prosesu'r data. Blwyddyn yw'r cyfnod hwn fel rheol ond gall fod yn hirach, os oes angen, ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol. Asesir pob cais am wybodaeth HESA o dan Bwrpas 4 am ei gydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data a'i gysondeb â'r hysbysiad casglu hwn. Mae HESA yn sicrhau mai dim ond yr wybodaeth HESA ofynnol ar gyfer y pwrpas ymchwil penodol a gyflenwir i ddefnyddwyr. Os bydd yr wybodaeth a gyflenwir yn cael ei chyhoeddi, rhaid defnyddio [Methodoleg Crynhoi HESA](#), neu ddull rheoli datgeliad cyfatebol, i sicrhau nad oes posib adnabod unigolion o'r deunydd a gyhoeddwyd ac nad ydynt yn Ddata Personol.

Mae copi o gytundeb cyfredol HESA ar gyfer mynediad i Heidi Plus [ar gael yma](#). Mae pob cytundeb yn manylu ar y pwrpas ar gyfer prosesu'r data.

Hefyd efallai y bydd Rheolyddion eraill (a restrir o dan Bwrpasau 1 a 2 uchod) yn prosesu data ar gyfer y pwrpas hwn os yw hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

#### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 4**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 4 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoeddneuw wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR).

Hefyd efallai y bydd rhaid prosesu at ddibenion budd cyfreithlon HESA wrth ddsbarthu gwybodaeth addysg uwch,neu fuddiannau cyfreithlon trydydd partion wrth gynnal ymchwil ym maes addysg uwch (Gweler Erthygl 6(1)(f) GDPR).

Yn y naill achos a'r llall mae prosesu eich gwybodaeth HESA yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) GDPR.

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata personol at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR).

#### **Pwrpas 5 - Staff academaidd clinigol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn unig**

Os ydych chi'n gweithio mewn rôl neu adran glinigol neu gysylltiedig ag iechyd, efallai y bydd Cyngor yr Ysgolion Meddygol yn defnyddio eich gwybodaeth HESA at ddibenion ychwanegol.

Mae [Cyngor yr Ysgolion Meddygol](#) (MSC) ac [Universities UK](#), drwy gyfrwng gweithgareddau Cyngor yr Ysgolion Deintyddol (DSC), yn defnyddio data staff HESA at y dibenion canlynol:

- Monitro tueddiadau mewn staff academaidd clinigol fel sail ar gyfer partneriaeth rhwng y GIG a phrifysgolion.
- Hybu, cynnal a gwella addysg ymchwil ac arferion clinigol o ansawdd uchel yn y DU.
- Cyhoeddi canlyniadau ymchwil i staff academaidd clinigol ar lefel ystadegol fanwl ble ceir risg o adnabod unigolion drwy gyfuniadau o nodweddion.

Mae'r MSC a'r DSC yn cadw data manwl bob blwyddyn am flwyddyn ar ôl derbyn data gan HESA. Cedwir canlyniadau ymchwil am gyfnod amhenodol at ddibenion ystadegol ac ymchwil.

#### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 5**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 5 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categorïau Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Gweler Erthygl 9(2)(j) GDPR).

#### **Pwrpas 6 – Tâl uwch staff ac iawndal am golli swydd**

Os yw eich cyflog yn fwy na £100,000 y flwyddyn, neu os cewch iawndal am golli swydd, efallai y bydd gwybodaeth am eich cyflog neu eich taliadau iawndal yn cael ei chyhoeddi gan HESA a'r cyrff cyllido a rheoleiddio sydd wedi'u rhestru ym Mhwrpas 1.

Mae cyfarwyddiadau cyfrifon yr [Office for Students](#), [Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru](#), [Cyngor Cyllido'r Alban](#) ac Adran yr Economi (GI) yn dweud bod rhaid i ddarparwyr addysg uwch gyhoeddi'r manylion canlynol fel rhan o'u datganiadau blynyddol:

- Enw Pennaeth y Darparwr, ei gyflog a'i fanteision
- Nifer y staff sy'n cael mwy na £100,000 y flwyddyn
- Nifer y staff sydd wedi cael iawndal am golli swydd ('tâl diswyddo').

Hefyd mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan HESA yng nghofnod Cyllid HESA ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ar gyfer darparwyr addysg uwch yn Lloegr, mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan yr Office for Students a'i rhannu gyda HESA, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth hon at y dibenion a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn.

Mae HESA yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth ariannol arall am ddarparwyr AU fel data agored. Mae'r data a gyhoeddir yn cynnwys cyfrif y staff heb ei dalgrynnu na'i gyfyngu.

Mae data am benaethiaid darparwyr yn ddata personol, a lle mae niferoedd eraill yn isel ar gyfer darparwr, gall y rhain ddatgelu gwybodaeth am unigolion hefyd.

#### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth ariannol am dâl staff, iawndal a manteision ar gyfer pwrpas 6.**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 6 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

## **Pwrpas 7 - Defnydd gan HESA i gyflawni ei rôl fel corff data dynodedig ar gyfer Lloegr a'i swyddogaethau cyfatebol ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig.**

Mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei phrosesu gan HESA i gasglu, crynhoi, cyhoeddi a rhannu data yn unol â'r hysbysiad hwn. Bydd y prosesu hwn yn cynnwys prosesu at ddibenion fel dadansoddi ac ymchwilio i: adolygu a gwella ansawdd data; manwl gywirdeb data; a'r defnyddioldeb; cyd-destun a chyfoeth y data / dadansoddiad y mae HESA yn ei gynhyrchu. Bydd hefyd yn cael ei phrosesu i'w dadansoddi ac i ymchwilio i ganlyniadau addysg.

Mae HESA yn prosesu eich gwybodaeth HESA fel rhan o set ddata ystadegol fwy ar gyfer y pwrpasau uchod i wneud y canlynol:

- Creu meysydd sy'n deillio i gyfoethogi cyfleustodau data a gwybodaeth am ddata HESA.
- Gosod y defnydd o ddata HESA yn ei gyd-destun.
- Data sicrhau ansawdd a chael gwared ar anghysonderau a gwella manwl gywirdeb data.
- Ymchwil i ansawdd data a dibyniaeth y sector ar ddata cyfresi amser.
- Adolygu sut gellir gwneud newidiadau a gwelliannau i brosesau HESA gan gynnwys systemau a meddalwedd a'r goblygiadau fyddai gan hyn o ran y data maent yn eu cynhyrchu.

### **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth ar gyfer Pwrpas 7**

Mae'n rhaid prosesu eich gwybodaeth HESA ar gyfer Pwrpas 7 er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoeddneu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r Rheolydd (Gweler Erthygl 6(1)(e) GDPR) ac at ddibenion ystadegol ac ymchwil (Gweler Erthygl 89 GDPR).

Mae'n rhaid prosesu Categoriâu Arbennig o ddata at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unol ag Erthygl 89(1) ynseiliedig ar y dyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998, Deddf yr Economi Ddigidol 2017 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol, neu at y dibenion ymchwil eraill sy'n dod o dan Erthygl 9(2)(j) GDPR.

Hefyd gall prosesu Categoriâu Arbennig o ddata fod yn angenrheidiol am resymau'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ddeddfwriaeth ddilynol gyfatebol (Gweler Erthygl 9(2)(g) GDPR).

## **Rhagor o wybodaeth am y rhai sy'n derbyn eich gwybodaeth HESA**

Mae HESA yn cyhoeddi cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am y derbynyddion yr ydym yn datgelu data iddynt at ddibenion ystadegol. Mae'r gofrestr fyw i'w gweld yma: <https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/register>.

### **Eich hawliau**

Mae deddfwriaeth diogelu data'n rhoi hawliau i chi dros eich data personol. Mae'r rhain yn cynnwys hawliau i wybod pa wybodaeth sy'n cael ei phrosesu amdanoch chi a sut mae'n cael ei phrosesu. Rhaid i HESA ac unrhyw sefydliad arall sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pam neu sut mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu gadw at yr hawliau hyn.

Mae gennych hawl i gael gwybod sut mae eich data personol yn cael eu defnyddio. Mae'r hysbysiad casglu Staff hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn disgrifio'n fanwl gywir sut mae'ch gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio. Gellir diweddarau'r hysbysiad hwn o bryd i'w gilydd, er enghraifft, pan sefydlir deddfwriaeth newydd, neu pan weithredir polisïau newydd gan yr awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u rhestru o dan Bwrpasau 1a 2. Bydd y fersiwn diweddaraf i'w weld bob amser yn [www.hesa.ac.uk/fpn](http://www.hesa.ac.uk/fpn).

Am ragor o wybodaeth am ddiogelu data, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Diogelu Data HESA, ewch i <https://www.hesa.ac.uk/dataprot>. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am sut mae eich gwybodaeth HESA yn cael ei defnyddio, cysylltwch â [data.protection@hesa.ac.uk](mailto:data.protection@hesa.ac.uk).

O dan y GDPR mae gennych hawl i fynediad at eich gwybodaeth personol a yr hawl i gywiro gwybodaeth anghywir, yr hawl i ddileu; cyfyngu ar brosesu; a gwrthwynebu prosesu. Mae'r hawliau hyn wedi'u cyfyngu o dan rai amgylchiadau gan eithriadau sydd wedi'u cynnwys yn y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 lle mae data'n cael eu prosesu at ddibenion ymchwil neu ystadegol yn unig. Os ydych yn credu bod problem gyda'r ffordd mae HESA yn trin eich data, mae gennych hawl igwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: [ico.org.uk/](http://ico.org.uk/).



### **Trosglwyddo data i wledydd eraill**

Efallai y caiff eich gwybodaeth HESA ei throsglwyddo i wledydd eraill y tu allan i'r DU a'r Undeb Ewropeaidd at y dibenion a ddisgrifir uchod.

Dim ond i wledydd yr aseswyd bod eu deddfau diogelu data yn ddigonol, neu lle mae mesurau diogelwch digonol ar waith i amddiffyn eich gwybodaeth HESA, y bydd eich gwybodaeth HESA yn cael ei throsglwyddo.